BARA I BLANT:

NEU

Wyddorion cyntaf y grefydd Griſtnogawl.

Mewn ffordd o Ymholiad ag Atteb er mwyn rhai Iefaingc.

Hyffoeddia blentyn ym mhen ei ffordd, a phan henciddio nid ymedy â hi, Diar. 22. 6.

Ac iti er yn fachgen wybod yr ſcrythur lân, yr hon ſydd abl i'th wneuthur di yn âdoeth i iechydwriaeth, trwy'r ffydd ſydd yn Ghriſt Jeſu, 2 Tim. 3. 15.

Cyfieuthwyd gan *R. P.* Pr gethwr yr Efengyl.

Printiedig gan *John Aſtwood*, yn *Llundain.* 1695.



LLYFRG.
GEN.
CYMRU

Bara i Blant; neu egwyddorion cyntaf y Greſydd Griſtnogawl.

Ymoliad. *PWy ath wnaeth di yn enaid byw?*

Atteb. Duw, 'r hwn a wnaeth bob peth, am gwnaeth i yn enaid byw, *Gen.* 2. 7. *Pſal.* 139. 14.

Y. *Beth yw Duw?*

A. Duw yw yſpryd anſeidrol ac anfeſſuroll, yn ei allu, ei ſancteiddrwydd, ei ddaioni, ai wirionedd, *Joan.* 4. 24. *Jer.* 32. 18.

Y. *Pa ſawl Duw ſydd?*

A. Nid oes ond un bywiol a gwîr Dduw, mewn tri pherſon, y Tad, a'r Mab, a'r Yſpryd glân, 1 *Theſ.* 1. 9. 1 *Joan.* 5. 7.

Y. *Pa wedd yr adnabyddyr Duw?*

A. Fe adnabyddyr Duw yn ei air, ai weithredoedd, *Dihar.* 2. 1, 2, 3, 4, 5. *Pſal.* 102. 3, 4.

Y. *I ba ddiben y rhoes Duw y fath enaid i ti?*

A. Duw a roddes y faeth enaid i mi, i adnabod, ai ogoneddu ef, *Col.* 3. 10. *Datc.* 15. 4.

Y. *Beth a ddaw o'th enaid yn ol marw olaeth?*

A. Fy enaid yn ol marwolaeth, ſydd i ſyned, naill ai i happuſrwydd gyda Duw yn y nefoedd, neu i boenau tragywyddol yn nhân uffern, *Mat.* 25. 46. *Joan.* 5. 29.

Y. *Pa fodd y daeth dy enaid i fod mewn perigl o uffern?*

A. Waith pechu yn erbyn Duw, a thrwy hynny haeddu Damnedigaeth tragywyddol, *Pſal.* 9. 17. *Rhuf.* 2. 9.

Y. *Pa fodd y daeth oſt i bechu yn erbyn Duw?*

A. Y dyn cyntaf *Adda* a bechodd, ac a dorrodd gyfammod â Duw, a minneu ynddo ef, *Rhuf.* 5. 18, 19. *Gen.* 2. 17.

Y. *Beth yw pechod dy natur?*

A. Y mae fy natur gwedi cael ei llygru trwi bechod, ac hâd pob pechod ynddi, *Pſal.* 14. 1. *Pſal.* 51. 5.

Y. *Beth*

Y. *Beth yw pechod?*

A. Pechod yw torriad o orchymynion Duw, *Deut.* 11. 27, 28. 1 *Joan.* 3. 4.

Y. *Pa ſawl gorchymyn ſydd?*

A. Deg, fel y maent yn ſcrifennedig yn *Exod.* 20. *Deut.* 5.

Y. *Beth yw'r gorchymyn cyntaf?*

A. Na fydded iti dduwiau eraill ger ſy mron i, *Exod.* 20. 3.

Y. *Beth y mae'r gorchymyn cyntaf yn ei ofyn?*

A. I mi gymryd un Duw, yn Dduw imi, ai garu, vwchlaw pob peth, *Deut.* 6. 4, 5. *Mat.* 22. 37.

Y. *Beth yw'r ail orchymyn?*

A. Na wna iti ddelw gerfiedig, *&c. Exo.* 20. 4, 5.

Y. *Beth y mae'r ail orchymyn yn ei ofyn?*

A. I ni addoli Duw yn ol ei air ei hun, ag nid yn ol Dychymig Dynnion, *Mat.* 15. 9. *Eſay* 29. 13.

Y. *Beth yw'r trydydd gorchymyn?*

A. Na chymer enw'r Arglwydd dy Dduw yn ofer, *Exod.* 20. 7.

Y. *Beth y mae'r trydydd gorchymyn yn ei ofyn?*

A. I feddwl ac ymddiddan am Dduw, gyda' r parch a'r ofn mwyaf, a pheidio

cym meryd ei enw yn ofer, *Deut.* 28. 58. *Dihar* 1. 7.

Y. *Beth yw'r pedwaredd gorchymyn?*

A. Cofia y dydd Sabboth iw ſancteiddio *&c. Exod.* 20. 8.

Y. *Beth y mae'r pedwaredd gorchymyn y ei ofyn?*

A. Cadw dydd yr Arglwydd yn ſanctaidd, ac nid iw dreulio mewn meddyliau, chwaryddion, a geiriau ofer, *Eſa* 58. 13. *Dat.* 1. 10.

Y. *Beth yw 'r pummed gorchymyn?*

A. Anrhydedda dy dâd ath fam, ſel yr eſtynner dy ddyddiau ar y ddaiar yr hon y mae 'r Arglwydd dy Dduw yn ei rhoddi iti, *Exod.* 20. 12.

Y. *Beth y mae yr pummed gorchymyn yn ei ofyn?*

A. I roddi anrhydedd i bawb y mae'n ddyledus, ag i uſyddhau ein rhieni yn yr Arglwydd, *Tit.* 3. 1. *Eph.* 6. 1, 2.

Y. *Beth yw'r chweched gorchymyn?*

A. Na Ladd, *Exo.* 20. 13.

Y. *Beth y mae'r gorchymyn hyn yn i ofyn?*

A. I wneuthur daioni i bawb, heb feddyliau, na geiriau digofus, *Dihar.* 19. 11. *Mat.* 5. 21, 22.

Y. *Beth yw'r ſeithfed Gorchymyn?*

A. Na

A. Na wna odineb, *Exod.* 20. 14.

Y. *Beth y mae'r ſeithfed gorchymyn yn ei ofyn?*

A. I ni gadw ein hunein oddiwrth bob aſlendid, ag i fod yn bûr mewn meddwl, gair, a gweithred, *Mat.* 5. 27, 28. *Eph.* 4. 19.

Y. *Beth yw'r wythfed gorchymyn?*

A. Na Ledratta, *Exod.* 20. 15.

Y. *Beth y mae'r wythfed gorchymyn yn ei ofyn?*

A. Na'chymeron ddim o eiddo arall, na threulio yn eiddo ein hun yn ofer, *Eph.* 4. 28. 1 *Cor.* 6. 10.

Y. *Beth yw'r nawfed gorchymyn?*

A. Na ddwg gam dyſtiolaeth yn erbyn dy gymydog, *Exo.* 20. 16.

Y. *Beth y mae'r nawfed Gorchymyn yn ei ofyn?*

A. Gwirionedd yn ein geiriau a'n gweithredoedd heb dwyllo ein cymydog, *Zach.* 8. 16. *Eph.* 4. 25.

Y. *Beth yw'r degfed Gorchymyn?*

A. Na chwenych dy dy gymydog, *&c. Exo.* 20. 17.

Y. *Beth y mae'r degfed gorchymyn yn ei ofyn?*

A. I ni fod yn fodlon ir hyn ſydd gennym, ag ymgadw rhag calon gybyddus,

Luc.

Luc. 12. 32. *Heb.* 13. 5.

Y. *A gedwaiſt di y gorchymynion hyn?*

A. Na ddo, eithr mi ai torres mewn meddwl, gair, a gweithred, *Mat.* 15. 19. *Rhuf.* 3. 23.

Y. *Beth ſydd ddyledus iti am hyn?*

A. Trwy Dorri y gorchymynion hyn, mi a dynnais felldith Duw ar fy enaid, ac a wnaethum fy hûn yn blentyn Digofaint wrth natur, *Gal.* 3. 10. *Eph.* 2. 3.

Y. *Pa fodd y diangwn lîd a digofaint Duw?*

A. Duw oi fawr Drugaredd a Ddatcuddiodd Jechawdwriaeth oddiwrth bechod trwy Jeſu Griſt, *Joan* 2. 4. 1 *Tim.* 1. 15.

Y. *Pwy 'n yw Jeſu Griſt?*

A. Jeſu Griſt yw mab Duw'r Tâd, 'r hwn a gymerodd arno ein natur ni, ac a wnaethpwyd yn dduw ag yn Ddyn yn un perſon, *Heb.* 2. 16. 1 *Tim.* 3. 16.

Y. *Pa ham roedd rhaid i Jeſu Griſt fod yn ddyn?*

A. I farw dros ein pechodau ni, ac eſe a adgyfodwyd oddiwrth y meirw, *Rhuf.* 5. 8. 1 *Cor.* 15. 3.

Y. *Pahaen y bu Chriſt farw troſſom?*

A. I'n prynnu oddiwrth felldith y gy-

fraith,

fraith, ac i weithio allan gyfiawnder troſſom, *Gal.* 3. 13. 1 *Cor.* 1. 30.

Y. *Pa le y mae Jeſu Griſt?*

A. Yn y neſoedd ar ddeheulaw Duw, *Heb.* 1. 3. *Heb.* 8. 3.

Y. *Pa beth y mae Jeſu Griſt yn ei wneuthur droſſom ni yn y neſoedd?*

A. 1. Jeſu Griſt yw ein Archoffeiriad ni yn y neſoedd, i ddadleu tywalltiad ei waed, ag i weddio troſom, 1 *Joan* 2. 1,2. *Heb.* 7. 25.

2. Jeſu Griſt yw ein Prophwyd i'n dyſcu trwy ei air ai yſpryd, *Mat.* 17. 5. *Act.* 3. 22.

3. Jeſu Griſt yw ein Brenin i Deirnaſſu arnom, *Act.* 3. 35. *Datc.* 15. 3.

Y. *Pa fodd y gallwn fod yn gyfrannogion o'r jechawdwriaeth hon?*

A. Trwy ddyſod at Jeſu Griſt megis pechadur tlawd colledig, i gael fyng glanhau oddiwrth fy mhechodau yn ei waed ef a'm cyfiawhau ganddo ef, *Datc.* 1. 5. *Actau* 13. 38, 39.

Y. *Pa fodd y mae Duw yn cyfiawnhau pechadur?*

A. Y mae Duw trwy ei râd râs yn rhoddi maddeuant i bechaduriaid truenus er mewn Criſt; ac yn cyfrif cyfiawnder

Criſt i'r credadyn, *Rhuf.* 3. 24, 25. *Rhuf.* 4. 6.

Y. *Pa fodd y gellwch chwi ddyfod i gredu ynghriſt?*

A. Y mae Duw yn gweithio ffydd mewn pechaduriaid meirwon trwy ei yſpryd wrth wrando pregethiad yr efengyl, *Rhuf.* 10. 17. 1 *Theſ.* 2. 13.

Y. *Pa fodd y mae Duw yn gweithio ffydd yn yr enaid?*

A. 1. Trwy argyhoeddi o bechod, a datcuddio Jeſu Griſt yn yr addewid, *Luc.* 7. 37. *Joan.* 6. 37.

2. Y mae'n rhaid imi weddio ar Dduw am weithio ffydd ynofi, a datcuddio Criſt i'm henaid truain, 2 *Theſ.* 1. 11. *Eph.* 1. 17, 18.

Y. *Pa fodd y gelli di weddio?*

A. Rhaid imi ymbil ar dduw roi ei yſpryd ſanctaidd i'm cynnorthwyo, *Luc.* 11. 13. *Rhuf.* 8. 26.

Y. *Pa fodd y gwyddoſt fod yr yſpryd yn dy gynnorthwyo mewn gweddi?*

A. Pan allwyf gyfaddef oddifrif fy'mhechod, ac ymoſtwng i drugaredd, a gras Duw yn Jeſu Griſt, a diſgwyl am faddeuant yn unig ier ei ſwyn ef, 1 *Jo.* 1. 9. *Joan.* 14. 13.

Y. *Pa*

Y. *Pa fodd y dylyt ti fod yn blentyn gweddeigar i Ddduw?*

A. 1. Y mae'n rhaid imi weddio ar ym tâd nefol, pob boreu a hwyr yn y dirgel, *Mat.* 6. 6. *Pſal.* 45. 17.

2. Y mae'n rhaid imi hefyd ddarllen rhwy barth o air Duw, a gweddio ar Dduw i'm dyſcu trwyddo, *Dihar.* 6. 21, 22. 2 *Tim.* 3. 15.

Y. *Beth yw gwaith yſpryd Duw?*

A. Y mae'n rhaid imi gael fy aileni o'r yſpryd, ac onide ni câf fyned byth i mewn i deirnas nefoedd, *Joan.* 3. 3. 1 *Pet.* 1. 13.

Y. *Beth ydyw ffrwyth yr ailenedigaeth?*

A. 1. Y mae'n rhaid imi ſod ynghriſt, ac yn greadur newydd ynddo ef, 2 *Cor.* 5. 17. *Eph.* 2. 10.

2. Y mae'n rhaid imi ymegnio am ſod yn gyfrannog o bob math ſanctteiddrwydd ynghriſt Jeſu mewn calon ac ymarweddiad, 1 *Theſ.* 5. 14. 1 *Pet.* 1. 15.

Y. *Beth yr ydys yn ofyn gan yr eneidiau ac ſydd yn ſychedu am ychwaneg o Griſt?*

A. Dyledſwydd y cyfryw ydyw rhoddi en hunain i fynu i fod yn aelodau o'r yw eglwys neilltuol Criſt, *Actau* 2. 47. 2 *Cor.* 8. 5.

Y. *Beth*

Y. *Beth yw Eglwys Griſt?*

A. Eglwys Griſt yw cynullheidfa o Seinctiau wedu ymgynyll ynghyd, i gydfeddiannu holl Ordeinhadau Duw, ac i adeiladu y naill y llall, mewn hir ymaros a chariad, 1 *Cor.* 1. 2. 1 *Theſ.* 5. 11.

Y. *Beth yw'r gyfammod o râs?*

A. Cyfammod o râs yw, trwy ba un y mae Duw yn ei roddi ei hun i fod yn Dduw i ni, a ninnau i fod yn bobl iddo ynteu yn Jeſu Griſt, *Gen.* 17. 7. *Eſay* 56. 6.

Y. *Beth yw ordinhadau y Cyfammod o râs?*

A. Bedydd a Swpper yr Arglwydd.

Y. *Beth yw Bedydd?*

A. Mewn bedydd trwy olchiad â dwfr y rhoddir ni i fynu i arddeliad o enw Jeſu Griſt, *Mat.* 28. 19. *Gal.* 3. 27.

Y. *Beth yw Swpper yr Arglwydd?*

A. Swpper yr Arglwydd yw ordeinhâd ymha un y dangoſſir allan farwolaeth Jeſu Griſt, ag yr arwyddoceir ein cymmundeb ag ef trwy ffydd, ag y Selyr ini bob bendith yſprydol, 1 *Cor.* 11. 26. 1 *Cor.* 10. 16.

Y. *Pa bryd yr ydwyt gymmwys i fod yn gyfrannog o Swpper yr Arglwydd?*

A. Pan ſo 'nhalon yn cael ei thynnu allan ar ôl Chriſt, a myfi yn ſy rhoddi fy hûn

hûn iddo ef, er fy mod yn wan yn y ffydd, *Rhuf.* 14. 1. *Dat.* 22. 17.

Y. *Pwy fraint ychwaneg ſydd gennit wrth fod yn aelod eglwys Criſt?*

A. Y mae gennyf hawl mewn modd neulltuol yngweddiau y ſainct, ac yr wyf yn gyfrannog o bob cymmorth a diddanwch oddiwrthynt, *Iſa.* 5. 15, 16. *Rhuf.* 15. 1, 2.

Y. *Pa ddiddanwch arall ſydd gan eneidiau newydd-eni?*

A. 1. Os cefaiſt dy ail-eni gan yr yſpryd yr wyt yn blentyn i Dduw ac yn etifedd Nefoedd, *Joan.* 1. 12, 13. *Rhuf.* 8. 16, 17.

2. Tydi a gedwir trwy allu Duw i jechydwriaeth, 1 *Pet.* 1. 5. 1 *Theſ.* 5. 23.

Y. *Pwy fraint arall ſydd gennyt, os ydwyt blentyn i Ddûw?*

A. Myfi a gerir gan Dduw yn dragywydd, ac y mae efe yn dâd imi ac a wrandawyff ar fyngweddiau dibris, 2 *Cor.* 13. 14. 1 *Joan* 5. 15.

Y. *Beth yw dyledſwydd y rheini ag ſydd o Eglwys Griſt?*

A. 1. Nhwy ddylen dyfy mewn gras a gwybodaeth o Jeſu Griſt, dan air, ac ordinhadau Duw, *Mat.* 25. 30. 2 *Pet.* 3. 18.

2. Caru

2. Caru yr holl ſeinctiau, er eu bod yn anghytuno â nhwy yn eu barn, 1 *Joan.* 3. 14. *Col.* 3. 12, 13.

Y. *Beth yw'r gwaith mawr a wna Duw yn y byd?*

A. Goſſod y fyny teyrnas ei fab Jeſu Griſt a daroſtwng y cenhedlaetheu dano, *Eſ.* 9. 7. *Dat.* 11. 15.

Y. *A adgyfoder cyrph pawb oddiwrth y meirw yn y dydd diddewaf?*

A. Pan del Chriſt i'r farn pawb y gyfoder, drwg a da, ac a ſafant ger bron ei frawdle ef, *Heb.* 6. 2. 2 *Cor.* 5. 10.

Y. *Pa beth a fydd gwobr pawb yn y farn ddiweddaf?*

A. Y rhai fydd ynghriſt ac a wnaethant ddaioni, a gant fywyd tragwyddol, y rhai a wnaethant ddrwg damnedigaeth dragwyddol. *Mat.* 24. 46. *Joan.* 5. 29.

TERFYN.